ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R IAITH GYMRAEG 2024-2025

LLAIS

Eich llais chi mewn iechyd a gofal | Your voice in health and social care

Fformatau hygyrch

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy ymholiadau@llaiscymru.org

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Rhagair	4
Pwy ydym ni	5
Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	6
Safonau Llunio Polisi	12
Safonau Gweithredol	14
Safonau Cadw Cofnodion	21
Yr hyn yr ydym am ei wneud yn 2025–2026	24
Monitro ac adrodd yn y dyfodol	25
Cysylltu â ni	25

Rhagair

Yn Llais, credwn fod iaith yn fwy na dim ond dull cyfathrebu; mae'n adlewyrchiad o hunaniaeth, diwylliant a pherthyn. Felly rydym yn falch o gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg cyntaf, ac rydym yn gwneud hynny gyda balchder yn y cynnydd rydym wedi'i wneud a golwg glir ar ble y gallwn wneud yn well.

Mae'r adroddiad yn edrych ar ein cynnydd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 yn erbyn ein hysbysiad cydymffurfio, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 7) 2018.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi carreg filltir arwyddocaol yn ein hymrwymiad i ymgorffori'r iaith Gymraeg yng nghanol ein sefydliad ac mae'n rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–2028 sy'n helpu i lunio sut rydym yn parhau i wella ein ffyrdd o weithio a'n hadnoddau i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae hyn yn cyd-fynd â 'Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 7) 2018'.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd camau ystyrlon i sicrhau nad yn unig y mae'r Gymraeg yn bresennol yn ein gwaith, ond ei bod yn cael blaenoriaeth: o'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd, i sut rydym yn cefnogi ein staff a'n gwirfoddolwyr, i'r polisïau a'r systemau sy'n llunio ein gwasanaethau.

Rydyn ni'n gwybod nad yw newid yn digwydd dros nos. Mae'n cymryd gwrando, dysgu, a pharodrwydd i herio ein hunain. Drwy ddau hunanasesiad, rydyn ni wedi myfyrio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a lle mae angen i ni dyfu. Rydyn ni wedi clywed gan ein pobl, ein partneriaid, a'n cymunedau, ac mae eu lleisiau wedi ein harwain.

Ond dim ond y dechrau yw hyn. Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn adeiladu ar y sylfaen hon gydag egni ac uchelgais newydd. Byddwn yn ehangu ein cynnig dysgu, yn cryfhau ein perthnasoedd â chymunedau sy'n siarad Cymraeg, ac yn parhau i hyrwyddo meddylfryd 'y Gymraeg yn gyntaf' ym mhopeth a wnawn.

Byddwn yn gwneud hyn nid oherwydd bod yn rhaid i ni, ond oherwydd ein bod yn credu ym mhŵer iaith i gysylltu, cynnwys a grymuso. Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio tuag at Gymru lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, nid yn unig mewn polisi, ond mewn ymarfer; nid yn unig mewn geiriau, ond mewn gweithredoedd.

Grŵp Gweithgor Iaith Gymraeg, Llais

Pwy ydym ni

Llais ydym ni

Rydym yn gorff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ein cyllid gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn cynrychioli eich barn ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gan wneud yn siŵr ein bod yn gwrando, gan weithio gyda chyrff y GIG, awdurdodau lleol Cymru ac eraill i lunio a gwella gwasanaethau i bawb.

Mae gennym dîm cenedlaethol a 7 tîm rhanbarthol sy'n casglu eich barn a'ch profiadau. Maent yn cwmpasu:

- Caerdydd a Bro Morgannwg
- Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe
- Cwm Taf Morgannwg
- Gogledd Cymru
- Gorllewin Cymru
- Gwent
- Powys

Er bod y Gymraeg yn cael ei goruchwylio gan ein Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu, mae gan ein Bwrdd a'n tîm uwch arweinyddiaeth yn Llais y cyfrifoldeb am sicrhau bod ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd popeth a wnawn, gan gynnwys y Gymraeg.

Mae ein Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn monitro ein cydymffurfiaeth â'r safonau'n rheolaidd. Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo drwy ein rhwydweithiau staff a gwirfoddol mewnol, gyda chefnogaeth ein Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant.

Safonau cyflenwi gwasanaeth

Mae'r adran hon yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â safonau 1–63.

Gohebiaeth ysgrifenedig (1–7)

Yn Llais rydym yn defnyddio papur pennawd gyda geiriad dwyieithog. Gellir gweld y Gymraeg yn gyntaf neu ar yr un pryd â'r Saesneg. Mae gennym lofnodion e-bost dwyieithog sy'n dangos y Gymraeg yn gyntaf ac yn annog pobl i gyfathrebu â ni yn y Gymraeg. Mae staff sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn defnyddio bathodyn 'Hapus i siarad Cymraeg' yn eu llofnod e-bost.

Mae gan bob aelod o staff fynediad at Cysgliad sydd â dwy raglen, Cysill a Cysgeir, gwiriwr gramadeg a sillafu Cymraeg a chasgliad o eiriaduron.

Rydym wrthi'n gwneud newidiadau i'n system Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (CRM) i sicrhau y gall staff mewn gwahanol ranbarthau gael mynediad at ddewisiadau iaith ein cleientiaid ledled Cymru, lle bo angen. Mae oedi wrth gaffael datblygwr wedi golygu na ellid trwsio hyn cyn gynted ag yr oeddem wedi dymuno. Yn y cyfamser, lle mae staff yn ymdrin ag achosion ar draws rhanbarthau, mae dewisiadau iaith yn cael eu rhannu rhyngddynt i sicrhau cydymffurfiaeth.



Cyfathrebu dros y ffôn (8–20)

Mae pob galwad i'n prif linell ffôn yn cael ei hateb naill ai yn y Gymraeg ar gyfer ein gwasanaeth Cymraeg neu gyda chyfarchion dwyieithog ar gyfer ein gwasanaeth Saesneg. Nid oes gennym unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ein galwadau ffôn.

Pan gyhoeddwyd ein hysbysiad cydymffurfio, ni allem fonitro faint o alwadau a dderbyniwyd gennym yn y Gymraeg. Roedd hyn oherwydd cyfyngiadau amser ar storio gwybodaeth gyda'n darparwr. Rydym wedi newid ein darparwr yn ddiweddar; a gallwn nawr fonitro nifer y galwadau Cymraeg rydym yn eu derbyn. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Cyfarfodydd a digwyddiadau (21–33)

Ar gyfer cyfarfodydd ar-lein, mae gan yr holl staff gefndir Llais safonol dwyieithog a ddefnyddir bob amser. Mae gennym 2 gefndir ychwanegol ar gyfer staff Llais sy'n gallu siarad Cymraeg sy'n nodi 'Hapus i siarad Cymraeg' yn ogystal â'r negeseuon dwyieithog.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau pellach ar wasanaethau cyfieithu, gan gynnwys y Gymraeg, yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn nodi prosesau ac amserlenni clir y mae angen i bob aelod o staff eu dilyn wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau.

Mae ystyriaethau iaith Gymraeg fel gwahoddiadau, darparu cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb neu ar-lein ac ati wedi'u cynnwys yn ein rhestr wirio digwyddiadau Asesiad Effaith Integredig sy'n rhan o'n pecyn cymorth ymgysylltu.

Cynhyrchu deunyddiau a chyhoeddi dogfennau (34–38)

Mae unrhyw ddeunyddiau neu ddogfennau cyhoeddedig a gynhyrchwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rydym yn parhau â'n sgyrsiau gyda Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch sut y gallwn weithredu safon 34 mewn perthynas â'n cynnwys fideo 'Rhaid arddangos unrhyw ddeunydd rydych chi'n ei gynhyrchu a'i arddangos yn gyhoeddus yn y Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.'

Mae hyn er mwyn sicrhau y gallwn gynrychioli lleisiau pobl yn deg yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn ffordd sy'n adlewyrchu sut y gall gwahanol rannau o bobl effeithio ar eu profiadau e.e. ethnigrwydd, iaith, rhywedd, rhyw a chyfeiriadedd. Dywedodd un aelod o staff

Er nad ydym wedi cyrraedd 100% eto, bu symudiad cadarnhaol yn Llais tuag at meddylfryd 'y Gymraeg yn gyntaf.' Rydym yn sicrhau fel corff cyhoeddus ein bod bob amser yn cynhyrchu ein deunyddiau yn ddwyieithog, rhywbeth nad yw bob amser yn gyson ar draws y sector.

Gwefan, cyfryngau cymdeithasol ac apiau (35–46)

Mae ein gwefan ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac rydym yn ystyried gwahanol ffyrdd o ymgorffori mwy o'r Gymraeg yn ein safle Saesneg fel rhan o ailgynllunio ein gwefan. Rydym yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi manylion ein cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus, gan gynnwys ein papurau Bwrdd cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid oes gennym unrhyw apiau Llais.

Mae gennym sianeli dwyieithog ar LinkedIn, TikTok a YouTube, ac rydym yn postio yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân ar y cyfrifon hynny. Ar Facebook mae gennym 8 sianel Gymreig ac 8 sianel Saesneg. Mae'r rhain yn cwmpasu ein tîm cenedlaethol a 7 tîm rhanbarthol ledled Cymru.

Mae ein sianeli dwyieithog ar LinkedIn, TikTok a YouTube wedi tyfu **7.28%** dros y flwyddyn ddiwethaf

Fe wnaethon ni ennill 300 o ddilynwyr newydd ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gynnydd o **32.9%**

Er bod 8% yn llai o dwf wedi bod ar ein sianeli Cymraeg o'i gymharu â'n rhai Saesneg, rydym yn cael ein calonogi i weld bod pobl yn ymgysylltu â'n cynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg a hoffem i hyn dyfu dros amser.

Yn anffodus, mae llawer o'r rhyngweithiadau rydyn ni wedi'u cael ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi bod yn negyddol, yn anffodus. Y sialensiau mwyaf cyffredin sydd gennym yw pobl yn cwestiynu pam rydyn ni'n defnyddio enw Cymraeg pan nad yw llawer o bobl yn siarad Cymraeg, a byddai rhai pobl yn well ganddynt ddim ond sianeli dwyieithog nad ydyn nhw'n gwahanu'r ddwy iaith.

Oherwydd gwahanol lefelau o ymgysylltiad, adborth a chyrhaeddiad ar ein postiadau, rydym yn ystyried newid ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i fod yn ddwyieithog ar draws ein llwyfannau, gan leihau nifer y cyfrifon sydd gennym. Rydyn ni'n gwybod y gallai hyn fod yn fwy heriol i rai pobl, fel y rhai sy'n defnyddio darllenwyr sgrin ac y gallem golli cipolwg gwerthfawr ar ein cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg.

Mae angen i ni ymgynghori â'r bobl y byddai hyn yn effeithio arnynt fwyaf cyn i ni wneud y penderfyniad hwnnw. Byddwn yn rhoi diweddariad ar hyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Fe wnaethon ni gymryd rhan yn Defnyddia dy Gymraeg rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2024 i annog pobl i gysylltu â ni yn y Gymraeg yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn y cymunedau lle maen nhw'n byw.

Arwyddion (47–49)

Mae'r holl arwyddion yn ein hadeiladau yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Fel rhan o'r ddau hunanasesiad, fe wnaethom wirio hyn gan ein bod wedi cael rhai newidiadau i staff ac adeiladau dros y 12 mis diwethaf. Ystyriwyd hyn hefyd fel rhan o'r Asesiadau Effaith Integredig ar y symudiadau safle arfaethedig ar gyfer nifer o'n swyddfeydd, cyn symud i'r adeiladau newydd ym mis Mawrth 2025.

Gwasanaethau derbynfa (50–53)

Cyn mis Mawrth 2025 roedd gennym wasanaethau derbynfa cyfyngedig yn Llais.

Mae sawl swyddfa wedi symud lleoliad ym mis Mawrth 2025. Mae gan 3 o'r rhain wasanaethau derbynfa a ddarperir gan berchnogion yr adeiladau. Mae'r tri yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio â'r safonau.

Contractau (57–59)

Rydym yn cyhoeddi pob gwahoddiad i dendro am gontract yn y Gymraeg a'r Saesneg ac rydym yn croesawu ymatebion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gwasanaeth iaith Gymraeg a hunaniaeth gorfforaethol (60–62)

Mae ein henw 'Llais' yn Gymreig gyda'n logo yn arddangos ein neges yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf.

Cyrsiau a gynigir gan Llais (63)

Ar hyn o bryd nid yw Llais yn cynnig unrhyw gyrsiau addysgol, pe baem yn cynnig cwrs addysgol mae'n annhebygol y byddem yn bodloni'r gofyniad ar gyfer y safon hon fel y'i rhestrir o dan yr eithriadau yng nghanllawiau 'Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 7) 2018'.

Mae pob modiwl e-ddysgu ar ein system Cofnod Staff Electronig (ESR) ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd unrhyw fodiwlau yn y dyfodol y gallwn eu datblygu'n fewnol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Safonau llunio polisi

Mae'r adran hon yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â safonau 69–78.

Polisïau (69–71)

Rhaid i bob polisi newydd gael Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys ystyried y Gymraeg. Pan fydd polisïau'n cael eu hadolygu, rydym yn sicrhau bod yr asesiadau'n cael eu diweddaru neu, os oes mwy na 4 blynedd wedi mynd heibio, bod un newydd yn cael ei gwblhau.

Yn ddiweddar, argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg y dylai sefydliadau ystyried asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg.

Er ein bod yn cydnabod y rhesymau dros hyn, rydym wedi gwneud y penderfyniad i gadw'r iaith Gymraeg fel rhan o'n Hasesiadau Effaith Integredig i sicrhau y gellir ei hystyried fel rhan o ddull croestoriadol wrth ddatblygu neu adolygu polisi.

I gydnabod yr argymhelliad, fel rhan o'n gwaith parhaus ar ymgorffori asesiadau effaith yn ein gwaith o ddydd i ddydd, mae'r canllawiau manwl yr ydym yn eu cynhyrchu fel rhan o'n pecyn cymorth wedi'u diweddaru i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynhwysfawr, yn unol â'r dyletswyddau penodol sydd y tu allan i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dylid nodi pan gyfeiriwn at bolisïau ei fod yn yr ystyr eang a gall gwmpasu ystod eang o weithgareddau a chamau a all effeithio ar bobl, y tu hwnt i bolisïau gweithle.

Yn ogystal â'r 9 nodwedd warchodedig a'r iaith Gymraeg, mae ein hasesiadau effaith yn cynnwys ein dyletswyddau i ystyried yr anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, anghydraddoldebau iechyd, cynhwysiant digidol, gofalwyr, gwledigrwydd, a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ymgynghoriadau ac ymchwil (72–77)

Pan fyddwn yn siarad â phobl Cymru am eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol mewn digwyddiadau ymgysylltu neu fforymau cyhoeddus, rydym yn sicrhau y gall pobl roi adborth yn eu dewis iaith. Mae hyn yn unol â safonau 21–46.

Yn 2024–2025 fe wnaethon ni ddarn o waith mewn partneriaeth â Mwy na Geiriau, gan dargedu digwyddiadau lle gallem siarad â siaradwyr Cymraeg fel rhan o'n 'Sgwrs Genedlaethol'.

Gofynnwyd i bobl ddweud wrthym am eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol a defnyddio'r iaith Gymraeg a sut y gallem ni i gyd gefnogi'r sector yn well. Roedd hyn yn cynnwys arolwg a chynnal trafodaeth panel yn yr Eisteddfod gyda phartneriaid gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg a Phrif Weithredwr y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Y themâu allweddol y clywsom amdanynt oedd cynhwysiant, darpariaeth anghyson o wasanaethau, lles ac unigedd.

Fe wnaethon ni sicrhau bod yr hyn a glywsom yn cael ei adrodd yn ôl i Mwy na Geiriau a Chomisiynydd y Gymraeg. Byddwn yn cyfarfod â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn fuan i siarad mwy am y gwaith maen nhw'n ei wneud gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwnaethom hefyd sicrhau bod ein staff a'n gwirfoddolwyr ein hunain yn ymwybodol o faint o effaith y gall cael mynediad at wasanaethau yn yr iaith o'ch dewis ei chael ar bobl, atgof o ba mor bwysig yw ystyried pan fyddwn yn gwneud ein gwaith ein hunain.

Cyn comisiynu ymchwil a gwahodd pobl i dendro am ein contractau ymchwil, rydym yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid cynnal yr ymchwil yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer unrhyw grwpiau ffocws neu ddeunyddiau a gynhyrchir e.e. holiaduron. Mae'r adroddiad terfynol neu'r datganiad safbwynt sy'n ymwneud â darn o ymchwil yn cael ei gynhyrchu gan Llais a'i gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pan fyddwn yn cyhoeddi ein datganiadau safbwynt neu ymatebion i ymgynghoriadau a gomisiynwyd gan sefydliadau eraill e.e. Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ati, rydym yn gwneud hyn yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn fewnol ac yn allanol.

Safonau gweithredol

Mae'r adran hon yn ymdrin â'n cydymffurfiaeth â safonau 79–105 a 111–113.

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg (79)

Mae gennym bolisi iaith Gymraeg, sy'n nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau ar bob lefel o fewn Llais sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r egwyddorion polisi a ddefnyddiwn i ategu ein cynnig iaith Gymraeg.

Rydym wedi cydnabod bod angen diweddaru ein polisi i adlewyrchu pwy ydym ni nawr fel sefydliad sy'n tyfu. Yn 2025–2026 byddwn yn ymgynghori â'n staff a'n gwirfoddolwyr i gael eu barn ar unrhyw newidiadau y dylem eu gwneud i'r polisi ochr yn ochr â'n Grŵp Gwaith Iaith Gymraeg.

Fel y cyfeirir ato yn 'Safonau cyflenwi gwasanaethau', anogir pob aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg i arddangos logo 'Hapus i siarad Cymraeg' yn eu llofnodion e-bost a'r cefndiroedd cyfatebol ar gyfer cyfarfodydd ar-lein. Gall staff sy'n gweithio mewn adeiladau sector cyhoeddus ddewis llinynnau gwddf sy'n nodi eu bod yn hapus i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Mae gennym ni linynnau gwddf hefyd gyda logo Iaith Gwaith ar gyfer ein pobl mewn swyddfeydd eraill.

Am ragor o wybodaeth am staff sy'n siarad Cymraeg, cyfeiriwch at 'Safonau Gweithredol' yn yr adroddiad hwn.

Prosesau a gweithdrefnau mewnol (80–88)

Mae unrhyw ffurflenni neu ddogfennau mewnol sy'n ymwneud â safon 81 ar gael ac yn cael eu cynnig i weithwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn cydnabod bod gennym lai o reolaeth uniongyrchol dros absenoldebau a gofnodwyd a ffurflenni gwyliau blynyddol awdurdodedig gan fod y rhain yn cael eu cadw ar ein system Cofnodion Staff Electronig (ESR). Mae'r system hon yn wasanaeth a rennir a ddarperir drwy'r GIG, sy'n gyfrifol am ei diweddaru yn unol â'u Hysbysiad Cydymffurfio eu hunain.

Gellir gweld y porth ar-lein yn y Gymraeg ac mae absenoldebau a cheisiadau am absenoldeb a gofnodwyd yn ymddangos yn y Gymraeg gyda'r opsiwn iaith perthnasol wedi'i ddewis. Rydym yn fodlon bod hyn yn bodloni'r safonau, fodd bynnag, os byddwn yn nodi unrhyw beth nad yw'n gwneud hynny, byddem yn rhoi adborth ar hyn ac yn gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â'r mater.

Mae polisïau presennol sy'n ymwneud â safon 82 i gyd ar gael yn y Gymraeg. Bydd unrhyw bolisïau newydd a ddatblygwn, boed yn ymwneud â pholisïau a amlinellir yn y safon hon ai peidio, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae ein polisi 'Parch a Datrysiad', sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn nodi sut y gall gweithiwr wneud cwyn neu godi mater yn y Gymraeg a/neu sut y gallwn ymateb yn y Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd neu drafodaethau sy'n ymwneud â chanlyniadau. Mae'n ei gwneud yn glir y dylid rhoi gwybod i unrhyw weithiwr am hyn ar ddechrau unrhyw achos.

Meddalwedd iaith Gymraeg (89)

Rydym yn darparu Cysgliad i'n holl staff. Fel rhan o'n hunanasesiad, cawsom wybod nad oedd rhai o'n staff yn siŵr sut i gael mynediad at y feddalwedd hon.

Fe wnaethon ni gynhyrchu canllaw i helpu ein staff i gael mynediad at y feddalwedd a'i defnyddio, mae dolen weladwy i'r feddalwedd bellach ar gael ar ein tudalen fewnrwyd iaith Gymraeg a darparwyd arddangosiad o ble i ddod o hyd i'r dolenni a sut i osod y feddalwedd mewn cyfarfod Llais cyfan a recordiwyd i unrhyw un nad oedd yn gallu mynychu.

Mewnrwyd Llais (90–96)

Mae pob elfen a thudalen o'n gwefan fewnrwyd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Fel rhan o'n hunanasesiad, gwnaethom nodi bod rhai o'n staff yn dal yn ansicr ynglŷn â sut i newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar y wefan. Rydym wedi ailgyhoeddi canllawiau ar ein tudalen fewnrwyd 'newyddion', mae'n ymddangos ar dudalen 'hafan' y wefan, fel bod pobl yn gwybod sut i gael mynediad i'r fewnrwyd yn eu hiaith ddewisol.

Mae gennym broses ar waith i sicrhau bod tudalennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu diweddaru ar yr un pryd pan wneir newidiadau i'r wefan fewnrwyd. Mae gan bob tudalen ar y wefan weinyddwr penodol ac fe'u hanogir i adolygu ffeiliau a thudalennau yn rheolaidd.

Pan wneir newidiadau i dudalennau Saesneg, mae'n sbarduno e-bost i'n blwch post cyfieithu yn eu hysbysu bod angen diweddaru'r tudalennau Cymraeg, gan roi sicrwydd pellach.

Mae gan ein tudalen fewnrwyd iaith Gymraeg pwrpasol ddolenni i adnoddau rhyngweithiol fel sesiynau gan Gomisiynydd y Gymraeg, adnoddau dysgu Cymraeg am ddim a gwybodaeth am sut y gall pobl gymryd rhan yn ein Grŵp Gwaith Iaith Gymraeg.

Hyfforddiant mewnol (97–98)

Ar hyn o bryd, mae pob rhanbarth yn gyfrifol am sefydlu gweithwyr newydd. Byddai unrhyw un a fyddai'n well ganddo gael ei sefydlu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddyrannu i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn y rhanbarth hwnnw. Lle nad oedd un ar gael, byddem yn gofyn am aelod staff sy'n siarad Cymraeg o ranbarth gwahanol. Ar yr achlysur, pan nad oedd y naill na'r llall o'r pethau hynny ar gael, byddem yn darparu cyfieithydd i sicrhau y gellid cyflwyno hyn yn yr iaith o ddewis.

Caiff unrhyw hyfforddiant gorfodol ar gyfer sefydlu ei ddarparu drwy blatfform dysgu a rennir gan y GIG ac mae ar gael yn y Gymraeg.

Mae ein rhaglen sefydlu yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn fod yn fwy cyson ar draws Llais gyfan i ddylanwadu ar ein diwylliant. Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym yn ystyried gwahanol ffyrdd y gallwn hyrwyddo'r iaith Gymraeg, gan gynnwys camau gweithredu ychwanegol i wneud yn siŵr bod dechreuwyr newydd yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth, cefnogaeth, dysgu a sut i gymryd rhan yn ein rhwydweithiau.

Ein dysgu iaith Gymraeg 2024–2025 (99–103)

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'n dull o ddatblygu sgiliau, ac anogir staff i feithrin eu sgiliau. Gwyddom fod gennym fwy o waith i'w wneud i hyrwyddo ac annog datblygu sgiliau yn gyson ar draws ein sefydliad.

Mae angen inni hefyd wneud mwy i gadw golwg ar y gwahaniaeth y mae hyn yn ei wneud, er enghraifft drwy ein trefniadau gwerthuso a datblygu perfformiad personol, fel bod ein trefniadau'n cefnogi twf a datblygiad ein staff a'n sefydliad ymhellach.

Anogir staff i nodi'r dysgu priodol iddyn nhw naill ai drwy ddefnyddio dolenni ar ein tudalen fewnrwyd iaith Gymraeg neu eu hadnodd dewisol eu hunain, yna maen nhw'n codi'r cais hwn gyda'u rheolwr llinell, ac mae ein tîm gweithlu yn cymeradwyo'r cais.

Yn ein gwiriad 6 mis, gofynnwyd i'n staff roi gwybod i ni a oeddent yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd. Gofynnwyd iddyn nhw ddweud wrthym sut roedden nhw'n dysgu ac os nad oedden nhw a hoffent nhw ddysgu mwy am yr hyn y gallem ni ei gynnig.

Gofynnwyd hefyd i'r rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg, a oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u rôl, er mwyn ein helpu i nodi unrhyw anghenion hyfforddi pellach. Nododd y gwiriad chwe mis fod:

Tua 34% o'n staff na allant siarad, yn y Gymraeg â diddordeb mewn dysgu neu glywed mwy am yr hyn y gallem ei gynnig i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Tua 8% o'n staff yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, naill ai drwy ap neu ar–lein.

Hyder oedd y rhwystr mwyaf i bobl deimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u rôl, yn bennaf gan y rhai oedd ar lefel mynediad neu sylfaen. Roedd rhai staff yn teimlo bod angen mwy o help arnynt gyda gramadeg neu wrth ddefnyddio terminoleg feddygol. Mae ein pobl hefyd wedi dweud wrthym eu bod yn poeni am gael unrhyw iaith yn anghywir oherwydd profiadau blaenorol lle maent wedi cael eu beirniadu mewn ffordd nad yw'n adeiladol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dim ond 1 aelod o staff sydd wedi manteisio ar ein cynnig i ddysgu Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn is nag y byddem wedi'i obeithio. Er y gallwn weld bod rhai o'n staff wedi dewis dilyn eu dysgu eu hunain y tu allan i Llais, mae hyn yn dweud wrthym fod angen i ni wneud mwy i hyrwyddo a chefnogi ein cynnig dysgu. Bydd hyn yn rhan o'n hadolygiad Dysgu a Datblygu.

Dywedodd un o'n dysgwyr wrthym:

Dydw i ddim wedi cael y cyfle i ddefnyddio llawer o'r Gymraeg a ddysgais yn yr ysgol, na'r amser o gwmpas teulu a gwaith i ymrwymo i ddysgu mwy manwl. Mae gweithio mewn tîm gyda nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl wedi fy helpu i gofio ac adeiladu ar fy ngwybodaeth o'r iaith gymaint. Mae fy nghydweithwyr yn gefnogol iawn ac nid ydyn nhw'n gwneud hwyl pan fydda i'n rhoi cynnig ar ddefnyddio fy Nghymraeg – sydd wedi digwydd mewn sefydliadau eraill rydw i wedi gweithio ynddyn nhw ac roedd yn wirioneddol annymunol!

Ym mis Hydref, fe wnaethon ni ddathlu Diwrnod S'Mae drwy rannu 'Dysgu Cymraeg Gyda Llais' gyda'n staff, dogfen gyda rhai ymadroddion sylfaenol, cyfrif, cwestiynau ac atebion i annog pobl i gynyddu eu defnydd o Gymraeg sylfaenol yn y sefydliad. Fe wnaethon ni hefyd annog staff i rannu eu hoff air Cymraeg. Rydym yn bwriadu parhau i adeiladu ar y ddogfen hon, gan annog ymgysylltiad a'i diweddaru i dyfu gyda ni fel sefydliad.

Staff sy'n siarad Cymraeg (104–105)

Fel y cyfeirir ato yn 'Safonau cyflenwi gwasanaethau' anogir pob aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg i arddangos ein neges 'Hapus i siarad Cymraeg' yn eu llofnodion e-bost a defnyddio'r cefndiroedd penodol i'r iaith Gymraeg ar gyfer cyfarfodydd ar-lein.

Mae pob templed e-bost yn ddwyieithog gyda fersiwn Cymraeg y manylion cyswllt yn y neges e-bost yn ymddangos yn gyntaf. Mae gennym neges safonol allan o'r swyddfa sy'n cael ei harddangos gan staff, gyda'r neges Gymraeg yn ymddangos uwchben y neges Saesneg.

Mae gennym linynnau gwddf laith Gwaith ar gael i staff mewn digwyddiadau ymgysylltu ac ar ôl adborth gan ein staff rydym yn y broses o gaffael llinynnau gwddf newydd sy'n ymgorffori logo laith Gwaith a logo Llais i leihau nifer y llinynnau gwddf y mae angen i bobl eu gwisgo.

Safonau cadw cofnodion

Llenwi swyddi newydd a swyddi gwag (106–109 a 117)

Mae'r tabl isod yn dangos faint o swyddi newydd a gwag y mae Llais wedi'u hysbysebu rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 a faint o'r swyddi hynny a gafodd eu categoreiddio fel rhai hanfodol, dymunol neu angen dysgu'r Gymraeg.

Cyfanswm nifer y swyddi	Nifer y swyddi Cymraeg yn hanfodol	Nifer o swyddi Cymraeg yn ddymunol	Nifer y swyddi lle mae angen dysgu'r Gymraeg
13	0	13	0

O'r 13 swydd a lenwyd gennym, mae 6 o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn siaradwyr Cymraeg rhwng lefelau 1 i 5 ac wedi ymgymryd â swyddi ar draws y sefydliad gan gynnwys yn ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, gwasanaethau corfforaethol a'n tîm mewnwelediadau ac ymgysylltu.

Yn hanesyddol, hysbysebwyd y rhan fwyaf o'n swyddi lle mae'r iaith yn hanfodol yn ein rhanbarth yng Ngogledd Cymru oherwydd nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac sy'n byw yn y cymunedau hynny. Nid oedd yr un o'r swyddi a hysbysebwyd gennym yn y cyfnod adrodd ar gyfer unrhyw rolau yn y rhanbarth hwnnw.

Dros y 12 mis diwethaf, drwy wahanol weithgareddau recriwtio, ein hunanasesiadau a siarad ag amrywiaeth o bartneriaid, rydym yn gwybod bod rhaid i ni adolygu ein dull o gategoreiddio ein swyddi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol wrth recriwtio.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn rhanbarthau neu adrannau lle nad oes gennym gymaint o siaradwyr Cymraeg ag y byddem yn hoffi, a lle gallai hyn effeithio ar ein darpariaeth gwasanaeth.

Fel rhan o'n gwaith yn 2025–2026 rydym am nodi pa rai o'r '10 arfer da' a nodir yn y Pecyn Cymorth Arfer Da fyddai fwyaf defnyddiol i ni wrth recriwtio a'u hymgorffori yn ein prosesau.

Rydym eisoes yn gwneud rhai o'r arferion hyn, fel defnyddio'r iaith Gymraeg

mewn hysbysebu a chyfleu'n glir pa sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer ein swyddi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallem, a dylem, wneud mwy i ddangos yr hyn y gallwn ei gynnig fel ein bod yn denu pobl â lefelau amrywiol o'r Gymraeg i Llais ac yn cadw talentau, sgiliau ac arbenigedd y bobl sydd eisoes yn rhan o'n sefydliad.

Cwynion am yr iaith Gymraeg (115)

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ni chawsom unrhyw gwynion yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg.
Os byddwn yn derbyn cwyn, byddwn yn ei thrin yn unol â'n gweithdrefn gwyno. Mae hyn yn egluro sut y byddwn yn delio â chwynion a ble y gall pobl fynd os nad ydyn nhw'n hapus â sut rydym wedi delio â'u cwyn e.e., Comisiynydd y Gymraeg.

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, defnyddiodd 245* o bobl ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Gwyddom fod gennym fwy o waith i'w wneud o hyd i sicrhau ein bod yn cofnodi ein holl weithgareddau'n gyflym ac yn gywir. Byddwn yn mireinio ein mecanweithiau cofnodi ac adrodd eleni a byddwn yn darparu diweddariad yn ein hadroddiad 2025–2026.

*Mae ein system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid, sy'n cadw golwg ar ein gweithgareddau eiriolaeth cwynion yn ogystal â'n gweithgareddau ehangach, yn system sy'n dal i ddatblygu. Rydym yn gwella wrth ei defnyddio bob dydd, wedi gwneud newidiadau ers iddo gael ei weithredu gyntaf ac yn parhau i'w ddatblygu ymhellach.

Ein sgiliau iaith Gymraeg (116 a 120)

Rydym yn gofyn i weithwyr ar draws pob rhanbarth ac adran hunanasesu eu sgiliau iaith Gymraeg unwaith y flwyddyn. At ddibenion adrodd, mae pob rhanbarth ac adran yn diweddaru'r wybodaeth hon ar ein system Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (CRM). Mae gan weithwyr hefyd y dewis o ddiweddaru'r system Cofnod Staff Electronig (ESR) ar unrhyw adeg drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r data isod yn dangos bod tua 85% o staff wedi rhoi eu sgiliau iaith Gymraeg i ni.

Lefel Sgiliau Cymraeg	Nifer y Gweithwyr	%
0-No Skills/Dim Sgilliau	50	46.7%
1-Entry/Mynediad	16	15%
2-Foundation/Sylfaen	3	2.8%
3-Intermediate/Canolradd	4	3.7%
4-Higher/Uwch	4	3.7%
5-Proficiency/Hyfedredd	14	13.1%
Heb ei ddatgelu	16	15%
Cyfanswm	**107**	**100%**

Yn ein hunanasesiad 12 mis, roedd tua 19% o'n staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg lefelau 1-5 yn anhyderus yn eu defnyddio yn eu rôl, ac roedd llawer ohonynt yn siaradwyr lefel mynediad neu sylfaen. Dywedodd un dysgwr lefel mynediad:

Mae dysgu hyd yn oed hanfodion y Gymraeg wedi bod yn brofiad cadarnhaol, nid yn unig y sgiliau iaith rydw i wedi'u hennill ond hefyd y gefnogaeth gan bobl eraill yn fy nhîm a'n rhwydwaith mewnol. Gall fod yn frawychus gwneud camgymeriadau ond mae cael fy annog wedi fy helpu i deimlo fy mod yn rhan ohono ac rwy'n gobeithio y gallwn gyrraedd lle, lle mae hyn yn cael ei deimlo ar draws Llais gyfan.

Mae hyn yn dweud wrthym fod arfer da yn digwydd yn y sefydliad, ond mae angen i ni wneud mwy i gynyddu hyder a grymuso pobl i ddefnyddio eu sgiliau ar unrhyw lefel o fewn y sefydliad.

Yr hyn yr ydym am ei wneud yn 2025–2026

Ein huchelgais fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar bobl yw parhau i gydweithio ag eraill i fynd y tu hwnt i'r dyletswyddau a amlinellir yn yr adroddiad hwn ac i ymgorffori ein meddylfryd 'y Gymraeg yn gyntaf'.

Yn 2025–2026 fel rhan o'n Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg rydym am:

- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg** drwy sicrhau bod ein tudalen fewnrwyd yn tyfu gyda'n sefydliad, gan ddarparu adnoddau rhyngweithiol, fideos a chanllawiau i ymgorffori'r Gymraeg yn ein diwylliant.
- **Neilltuo lle i'r iaith Gymraeg** yn ein cylchlythyr Y Gair i ddathlu straeon, lleisiau a chyflawniadau.
- **Ehangu ein 'Dysgu Cymraeg Gyda Llais'** gan gynnig geiriau ac ymadroddion Cymraeg bob dydd wedi'u teilwra i ni, gan helpu pawb i deimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd ystyrlon.
- **Trawsnewid y ffordd rydym yn ysgrifennu ein polisïau a'n hadroddiadau** i wneud yn siŵr eu bod yn glir, yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.
- **Adolygu ein cynnig iaith Gymraeg** drwy wrando ar ein staff, deall eu hanghenion a gwahodd mwy o bobl i ymgysylltu â'r Gymraeg mewn ffyrdd sy'n teimlo'n ddilys.
- **Cryfhau ein perthnasoedd â chymunedau sy'n siarad Cymraeg** er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n berthnasol a bod pobl yn gallu cael mynediad at ein gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.
- **Tyfu fel sefydliad** fel y gallwn recriwtio a chadw pobl o gefndiroedd amrywiol sy'n gallu siarad gwahanol lefelau o Gymraeg, gan godi eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn falch yn eu gwaith bob dydd.

Monitro ac adrodd yn y dyfodol

Bydd ein Tîm Gweithredol, ein Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'n Bwrdd yn gwirio ein cydymffurfiaeth â'r safonau drwy ddiweddariadau rheolaidd.

Mae pob rhanbarth ac adran yn gyfrifol am fonitro eu cydymffurfiaeth gyda goruchwyliaeth gan Bennaeth CAE a Chyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein Hasesiadau Effaith Integredig ar gyfer sicrhau ansawdd, arfer da a nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn erbyn Safonau'r Iaith Gymraeg bob blwyddyn ac efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am gamau gweithredu penodol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i chynnwys yn ein Hadroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol.

Cysylltu â ni

Os hoffech roi adborth i ni ar yr adroddiad hwn neu os hoffech dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy'r manylion isod. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

Llais
Adeiladau'r Coron,
Parc Cathays,
Rhodfa'r Brenin Edward VII,
Caerdydd.
CF10 3NQ

02920 235 558
ymholiadau@llaiscymru.org